

# Y GREADIGAETH DDYNOL YN OCHNEIDIO —PRYD DDAW HYN I BEN?

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Codwch galonnau'r gynulleidfa. Byddwch yn gadarnhaol. Pwysleiswch fod popeth wedi bod yn llwyr dan reolaeth gan Jehofah ers pan wrthryfelodd Adda. Mae dyfodol rhyfeddol yn disgwyl y rhai sydd drwy ffydd yn cydweithio â holl fwriad Duw

### **OFEREDD SEFYLLFA DYN HEDDIW** (5 mun.)

I lawer heddiw 'does 'na ddim dyfodol gwerth sôn amdano; maen' nhw'n teimlo mor ofer ydi'r drefn

Mae pawb, boed dlawd neu gyfoethog, yn mynd yn sâl ac yn marw

Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol, amgylchedd wedi'i lygru, gorboblogi, torcyfraith, ac ansicrwydd economaidd yn codi cwestiynau ym meddyliau pobl ynglŷn â sut ddyfodol sy' 'na

Mae'r apostol Paul yn disgrifio sefyllfa dyn yn eglur (Darllen Rhufeiniaid 8:22)

Oes 'na wella i'r sefyllfa? Oes, fel mae Paul yn egluro yn Rhufeiniaid 8:18-25

Peth da fyddai inni ystyried cefndir ei sylwadau

### **BYTH ODDI AR GWRTHRYFEL EDEN, MAE DYN WEDI YMBELLHAU ODDI WRTH DDUW** (8 mun.)

Fe gafodd dyn gychwyn perffaith, heb achos i "ochneidio"

Wedi'u creu ar ddelw Duw, gosodwyd Adda ac Efa mewn paradwys ar y ddaear

'Roedd pob dim 'roedd ei angen arnyn' nhw ar gael; rhoddwyd gwaith iddyn' nhw oedd yn sialens; 'doedd dim salwch; 'roedd bywyd bythol yn eu haros (Gen 1:26-30)

Wnaeth y cwpl cynta' ddim parchu ffiniau Duw ar eu cyfer; mi wnaethon' nhw bechu (Gen 3:1-6)

Gyda phechod daeth poen, caledi, marwolaeth; dyma Adda ac Efa yn dechrau 'ochneidio' (Gen 3:16-19)

Fe drosglwyddodd Adda bechod a marwolaeth i'w blant (Rhuf 5:12)

Daeth bywyd yn debyg i'r hyn sydd gan Solomon i'w ddweud (Darllen Pregethwr 1:14)

Rhoddodd Jehofah sail gobaith wrth iddo addo'r Had (Gen 3:15)

Daeth yr addewid yn wir yn Iesu Grist, Archoffeiriad penodedig a Brenin Teyrnas Dduw

Rhoddodd Iesu ei fywyd yn bridwerth i brynu'r ddynoliaeth o'i chyflwr pechadurus

Trwy ei ysbryd, mewn modd rhyfeddol, mae Jehofah yn mabwysiadu 144,000 o fodau dynol i deyrnasu'n frenhinoedd ac yn offeiriad gyda Iesu (Dat 20:4)

Dyna beth oedd gan Paul mewn golwg pan gafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu geiriau Rhufeiniaid 8:18-25

Dangos 'roedd e sut gallai'r ddynoliaeth ddianc rhag oferedd

Beth am inni ystyried yr adnodau hyn?

### **DATGELU MEIBION DUW** (15 mun.)

Darllen Rhufeiniaid 8:18

Wrth ddweud "ni" cyfeirio 'roedd Paul at Gristnogion eneiniog ac yntau yn un ohonyn' nhw

Y "dioddefiadau" ydi'r erledigaeth a'r caledi sy'n dod i'w rhan nhw'r Cristnogion eneiniog, a hynny'n diweddu gyda marwolaeth, fel yn hanes Iesu

Y "gogoniant y mae'r dyfodol i'w ddatguddio" ydi'r gobaith sy' ganddyn' nhw o deyrnasu'n frenhinoedd gyda Christ yn ei Deyrnas nefol

Mae'r gobaith sicr hwn yn rhoi ystyr i fywyd y Cristnogion eneiniog; mae dyfodol sicr, rhyfeddol yn eu disgwyl

Darllen Rhufeiniaid 8:19

Y ddynoliaeth yn gyffredinol ydi'r "greadigaeth"

Cristnogion eneiniog ydi "meibion Duw" (Rhuf 8:16, 17)

Cyn Crist 'roedd dynion ffyddlon yn "disgwyl yn daer" am ffordd iachawdwriaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â datguddio meibion Duw (1Pedr 1:10)

Mae 'datguddio meibion Duw' yn gam pwysig i helpu'r ddynoliaeth i ddianc rhag oferedd

Fe ddaw'r "datguddio" adeg y gorthrymder mawr pan fydd Iesu a'r eneiniog atgyfodedig yn sgubo gelynyddion Jehofah o'r ddaear (2Thes 1:6-10; Dat 2:27)

Mewn byd newydd cyflawn yn ystod y milflwyddiant, fe gaiff dyn yn gyson brofi lles a budd aberth pridwerthol Iesu ar ei ran (2Pedr 3:13; Dat 22:1-3a)

Fe gaiff y ddynoliaeth ffyddlon ei dyrchafu i berffeithrwydd a fydd 'na ddim achos i neb ochneidio

Dyma drefn Duw, yn ôl yr adnod sy'n dilyn

Darllen Rhufeiniaid 8:20

Nid "dewis" y ddynoliaeth oedd cael ei 'darostwng i oferedd'

'Doedd gan fodau dynol gafodd eu geni wedi'r pechod gwreiddiol ddim cyfrifoldeb am bechod Adda, ac nid eu hewyllys nhw chwaith oedd cael eu geni

Wrth i Jehofah ganiatáu i Adda ac Efa gael plant, fe ddarostyngodd y plant i oferedd

Ond 'roedd hyn "yn y gobaith" y byddai had addawedig Duw yn cyrraedd

Ganrifoedd yn ôl, 'roedd gan ddynion ffyddlon oibaith, er fod problemau'r ddynolryw yn eu taro hwythau hefyd (Heb 11:10)

Darllen Rhufeiniaid 8:21

Yn ystod Teyrnasiad Mil Blynyddoedd Iesu, mi fydd lles ei aberth pridwerthol yn “rhyddhau [y ddynoliaeth] o gaethiwed” i bechod (Ioan 3:16)

Erbyn diwedd y mil blynyddoedd, fe fydd y ddynoliaeth ufudd wedi ei hadfer i berffeithrwydd gan Iesu a'i gyd-offeiraid

Fe gaiff enwau'r rhai sy'n parhau'n ffyddlon drwy'r prawf terfynol eu cofnodi'n barhaol yn llyfr y bywyd (Dat 20:12-15)

Mi fydd 'datguddio meibion Duw' yn dwyn y ddynoliaeth “i ryddid a gogoniant plant Duw”

#### **DISGWYL MEWN GOBATH MAE CRISTNOGION FFYDDLON** (5 mun.)

Darllen Rhufeiniaid 8:22

Heddiw mae'r “holl greadigaeth yn ochneidio”

Mae pawb mewn poen meddyliol ac yn dirywio'n gorfforol

'Does dim gobaith y gall ymdrechion dyn—yn gymdeithasol, yn wleidyddol, yn economaidd, yn wyddonol—lwyddo o gwbl

Darllen Rhufeiniaid 8:23

Mae hyd yn oed yr eneiniog—y rhai â'r gobaith nefol—yn 'ochneidio ynddynt eu hunain'

Maen' nhw hefyd yn dioddef oherwydd amherffeithrwydd ac mewn angen cefnogaeth yr ysbryd sanctaidd wrth weddio am help (Rhuf 8:26)

Er eu bod nhw eisioes wedi'u geni o'r newydd yn feibion Duw, maen' nhw'n “disgwyl” am eu “mabwysiad yn feibion”

Mae llawn brofi'r mabwysiad hwn, a derbyn eu gwobr yn y nef, yn dibynnu ar gadw'n ffyddlon hyd angau (Rhuf 8:17)

Darllen Rhufeiniaid 8:24

Yn y cyfamser, mae Jehofah yn meithrin gobaith cadarn ynddyn' nhw o gael byw yn y Deyrnas nefol

Felly, “yn y gobaith hwn” y ‘cawsant eu hachub’

Darllen Rhufeiniaid 8:25

Mae'r eneiniog “yn dal i aros amdano mewn amynedd”

'Dydyn' nhw ddim yn anobeithio, er i'w gobaith oedi dod (Heb 12:2, 3)

#### **MAE 'NA DDOSBARTH AR Y DDAEAR YN DISGWYL AM “RYDDID A GOGONANT PLANT DUW”** (6 mun.)

Cyfeirio'n bennaf at yr eneiniog sy'n edrych ymlaen at deyrnasu gyda Christ yn y Deyrnas nefol, mae Rhufeiniaid 8:18-25

Gobaith gweddill y ddynoliaeth ydi cael eu hadfer i'r cyflwr gollodd Adda—bywyd dynol perffaith ar ddaear baradwys (Salm 37:11, 29)

Dyna mae'n debyg, ydi gobaith pawb sy'n gwrando'r anerchiad hwn

Mae geiriau Paul at y Cristnogion yn Rhufain yn dangos fod iachawdwriaeth y ddynoliaeth ynghlwm wrth ffyddlondeb Iesu a'i frodyr eneiniog

Erbyn hyn mae'r rhan fwya' o'r 144,000 wedi “gorchfygu” a chymryd eu lle yn y nef (Dat 3:5, 12, 21)

Yn dilyn hyn gallwn ddisgwyl y cânt eu datguddio'n fuan iawn

Mae cyflwr y byd yn dangos hyn; mae arwydd diwedd y drefn bresennol yn amlwg ddigon (Math 24:3, 7-14, 34)

Cyn bo hir, mi fydd datguddio meibion Duw yn golygu dod â threfn Satan i ben (1Ioan 2:17)

Yn y drefn newydd bydd Crist a meibion Duw yn cydweithio i helpu'r ddynoliaeth adennill yr hyn gollodd Adda (Dat 21:3, 4)

#### **BENDITHION DRWY GYFRWNG “MEIBION DUW” 'NAWR AC YN Y DYFODOL** (6 mun.)

Mae ffydd gweddill “meibion Duw” 'nawr ar y ddaear yn rhyfeddol

Trwyddyn' nhw mae'r bwyd ysbrydol yn cael ei sianelu (Math 24:45-47)

Mae hyn yn helpu'r “defaid eraill” i weithredu ffydd ym mhridwerth Iesu, gyda'r gobaith o gael mynd i'r drefn newydd drwy atgyfodiad, neu drwy oroesi diwedd y drefn bresennol (Ioan 5:28, 29; 10:16; Dat 7:9, 14)

Gobaith real ydi'n gobaith ni—er mai yn y dyfodol y caiff ei gyflawni

Gadewch inni gadw'n agos at yr eneiniog drwy gyfeillachu â chyfundrefn Jehofah, a “dal i aros . . . mewn amynedd” i edrych ymlaen at wireddu'n gobaith (Rhuf 8:25)

Medrwn ddisgwyl bod ymhlith y rhai sydd wedi'u “rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth” a'n “dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw”

(Gweler hefyd *w99* 5/1 4-7; *w98* 2/15 17-22; *w98* 9/15 15-20; *w97* 5/15 14; *it-1* 50-1; *hs* 131-7)

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob ysgrythur a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)